TAG UG/Uwch

407/51

TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU
ICT 1
SYSTEMAU GWYBODAETH

A.M. DYDD GWENER, 15 Mai 2009

1½ awr

DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

Yn ogystal â'r papur arholiad hwn, bydd angen llyfr ateb 8 tudalen.

CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Atebwch **bob** cwestiwn.

Dangosir y marciau sydd ar gael am gwestiynau neu rannau o gwestiynau mewn cromfachau [ ]. Cynghorir chi i rannu eich amser yn unol â hynny. Cyfanswm y marciau sydd ar gael yw 60.

Atgoffir chi bod angen cyfathrebu ysgrifenedig da a chyflwyniad trefnus yn eich atebion.

ADRAN A

Atebwch **bob** *cwestiwn.*

1. Diffiniwch y termau Data, Gwybodaeth a Gwybod *(Information and Knowledge)*. Defnyddiwch enghraifft briodol i ddangos y berthynas rhwng pob un o'r termau. [6]

2. *(a)* Mae gwybodaeth "gyfoes, gywir a chyflawn" yn ychwanegu gwerth at gorff/gwmni trwy gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau. Gan ddefnyddio *gwahanol* enghreifftiau addas, disgrifiwch **ddwy** ffordd arall y mae gwybodaeth o'r fath yn ychwanegu gwerth. [4]

(b) Mae costau'n gysylltiedig â chael gwybodaeth o ansawdd da, gan gynnwys:

- arian
- amser
- adnoddau dynol.

Gan roi *gwahanol* enghreifftiau addas, disgrifiwch sut y gallai costau o'r fath ddigwydd *(arise)*. [3]

3. Mae myfyriwr yn dymuno cael gwybodaeth am yr *Amgylchedd*.
Disgrifiwch sut y gallai'r myfyriwr ddefnyddio **dwy** ffynhonnell gwybodaeth *electronig* wahanol ac addas i gael gwybodaeth am yr *Amgylchedd*. [4]

4. Mae Gwerthwr Tai *(Estate Agent)* yn defnyddio meddalwedd *cyflwyno (presentation)* i helpu rhedeg y busnes.

(a) Gan ddefnyddio enghraifft addas **ym mhob** achos, disgrifiwch sut y gall y nodweddion canlynol gael eu defnyddio i helpu rhedeg busnes y Gwerthwr Tai.

(i) Trawsnewidiadau animeiddiedig *(animated transitions)* [2]

(ii) Templedi [2]

(iii) Hypergysylltiadau *(Hyperlinks)* [2]

(b) Mae gan y Gwerthwr Tai wefan hefyd. Trafodwch fanteision defnyddio codio HTML yn hytrach na thempledi. [2]

5. Mae post electronig (e-bost) wedi dod yn bwysig iawn yn y byd modern. Esboniwch fanteision ac anfanteision defnyddio e-bost ar gyfer cyfathrebu. [5]

6. Mae'r staff mewn swyddfa Pensaer yn defnyddio cyfrifiaduron i gynhyrchu eu dyluniadau.

(a) Disgrifiwch **dri** pherygl iechyd mae angen i staff sy'n gweithio gyda chyfrifiaduron fod yn ymwybodol ohonynt. [3]

(b) Disgrifiwch **dair** gweithred *(action)* wahanol y dylai'r cwmni eu cymryd i leihau'r *(minimise)* peryglon hyn. [3]

7. Wrth greu cyfrifon banc ar-lein, mae dulliau *gwireddu* a *dilysu (verification and validation)* yn cael eu defnyddio.

(a) Diffiniwch y term *gwireddu* a disgrifiwch, gan ddefnyddio enghraifft addas, ddull a fyddai'n cael ei ddefnyddio gyda bancio ar-lein. [3]

(b) Diffiniwch y term *dilysu* a disgrifiwch, gan ddefnyddio enghraifft addas, ddull a fyddai'n cael ei ddefnyddio gyda bancio ar-lein. [3]

ADRAN B

Atebwch **bob** *rhan o'r cwestiwn hwn.*

8. Mae TGCh yn cael ei defnyddio'n eang mewn llawer maes yn y Gwasanaeth Iechyd, megis systemau arbenigo *(expert systems)*, dyfeisiau sganio'r corff, cronfeydd data ar gyfer cadw cofnodion, a systemau côd bar.

(a) Diffiniwch y term 'system arbenigo' a disgrifiwch, gan ddefnyddio enghreifftiau addas, fanteision systemau o'r fath ar gyfer gofal cleifion. [6]

(b) Trafodwch yn fanwl brif fanteision ac anfanteision dyfeisiau sganio'r corff wrth drin cleifion. [4]

(c) Trafodwch y rhesymau pam y cafodd cronfeydd data eu cyflwyno i storio cofnodion cleifion ac aseswch eu heffaith ar dracio a monitro cleifion. [4]

(ch) Gan ddefnyddio enghraifft addas, disgrifiwch sut mae system côd bar yn cael ei defnyddio wrth ofalu am gleifion a rhowch un o fanteision y system hon. [2]

Ansawdd Cyfathrebu Ysgrifenedig [2]